CYFRES C7

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th

DARLLENWCH
1 Samuel 16: 1-13

ADNOD ALLWEDDOL
Actau 13: 22

Astudiaeth 1 Bywyd Dafydd – Dewis y Brenin

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Salm 78: 70-72 Actau 13: 20-23

Roedd brenin cyntaf Israel yn teyrnasu pan oedd Dafydd yn fachgen.

C Darllenwch 1 Samuel 15: 1-3 a 10-11. Pwy oedd y brenin a pham wnaeth Duw ei wrthod ef?

2

Wedi hynny, anfonodd Duw ei was, Samuel, i eneinio brenin newydd yn ei le.

GRID GEIRIAU

Llanwch y Grid Geiriau trwy ateb y cwestiynau a chewch wybod mwy am genhadaeth Samuel.

1. Dros ba wlad oedd y brenin yn teyrnasu?
2. Beth ddywedodd Samuel yr oedd wedi dod i'w wneud?
3. Gofynnodd Samuel i'r henuriaid _ _ _ _ _ ag ef yn yr aberth.
4. Dywedodd Samuel y byddai hwn yn ei ladd.
5. At bwy y gwnaeth Duw anfon Samuel?
6. Beth oedd enw'r dref?



6

C Rhowch gylch o gwmpas enw gwas Duw yn y grid.

Safodd pob un o feibion Jesse gerbron Samuel.

C Ticiwch enwau pob un sy'n cael eu henwi, a rhowch gylch i ddangos faint o feibion oedd gan Jesse i gyd.

☐ Eliab ☐ Samgar ☐ Elias ☐ Abinadab ☐ Samma ☐ Abednego

2

7 3 8 6

C **Beth am y mab hynaf oedd yn denu Dafydd?**

1

C **Beth sy'n bwysicach gan Dduw na'r ffordd yr ydym yn edrych?**

1

Yn aml, gall y ffordd yr ydym yn edrych dwyllo pobl eraill ond allwn ni ddim twyllo Duw! Mae Duw'n gwybod sut rai ydym ni go iawn. Mae e'n gwybod a yw ein calonnau ni yn iawn. Nid oedd yr un o feibion Jesse a welodd Samuel hyd yma yn iawn yng ngolwg Duw.

C **Atebwch y cwestiynau hyn a rhowch rif yr adnodau lle mae'r atebion.**

1) Pwy oedd i fod yn frenin?

Adnod:

1

2) Beth oedd e'n ei wneud pan ddewisodd Duw ef?

Adnod:

1

C **Beth ddywedodd Duw wrth Samuel pan safodd y brenin newydd o'i flaen?**

1

C **Ysgrifennwch o'r Adnod Allweddol beth a ddywedodd Duw am Ddafydd.**

1

Pan oedd Dafydd yn sefyll o flaen Samuel, roedd calon Duw ei hunan yn llawenhau! Roedd wedi gwylio'r bachgen ifanc yn tyfu ac wedi gweld a chlywed pethau oedd yn ei blesio. Roedd Dafydd yn caru Duw ac yn dymuno ufuddhau iddo ac roedd gan Dafydd ffydd yn Nuw.
Roedd hyn yn ei wneud yn wahanol iawn i Saul! Mae Dafydd yn esiampl dda i ni! Dylen ninnau ymddiried yn Nuw a bod yn ufudd iddo.



C **Llanwch y bylchau i weld beth wnaeth Samuel i Dafydd.**

'Cymerodd Samuel y corn _ _ _ _ ac _ _ _ _ _ _ _ Dafydd yng nghanol ei _ _ _ _ _ _.

Ar unwaith, disgynnodd _ _ _ _ _ _ yr _ _ _ _ _ _ _ ar _ _ _ _ _.

Yna, aeth _ _ _ _ _ _ yn ôl i _ _ _ _.

4

Enw _____

DARLLENWCH
1 Samuel 16: 14-19
17: 12-52

ADNOD ALLWEDDOL
1 Samuel 17: 47

Astudiaeth 2 Bywyd Dafydd – Curo'r Cawr!

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Salm 108: 12-13 1 Corinthiaid 15: 57 Effesiaid 6: 10-18

Ar ôl ymweliad Samuel, cariodd Dafydd ymlaen i ofalu am ddefaid ei dad. Ond mae 1 Samuel 16: 14-19 yn dweud wrthym fod Dafydd yn gwasanaethu'r Brenin Saul trwy ganu'r delyn a chario'i arfau.

C **Darllenwch 1 Samuel 16: 18 ac ysgrifennwch y peth DIWETHAF a ddywedodd gwas Saul am Dafydd.**

1

Roedd hyn yn bwysicach na dim!
Tra oedd Dafydd yn gwasanaethu Saul, roedd y Philistiaid yn paratoi i ymosod ar Israel ac ymunodd tri brawd hynaf Dafydd â'r fyddin i ymladd yn eu herbyn. Weithiau, roedd Dafydd yn gorfod dod adref i ofalu am ddefaid ei dad.

CROESAIR

Llanwch y Croesair i ddysgu am Dafydd yn cael ei anfon i weld ei frodyr ar faes y gad.



Ar draws
1. Pwy oedd wedi paratoi i ymladd yn erbyn yr Israeliaid?
4. Roedden nhw'n ymladd yn nyffryn _ _ _.
7. Enw tad Dafydd.
10. Pan gyrhaeddodd Dafydd y gwersyll roedd y fyddin yn bloeddio'r __ _ _ _ _ _ _ _.
11. Roedd y Philistiad yn herio'r Israeliaid fore a _ _ _.

I lawr
2. Roedd Philistiad yn herio'r Israeliaid ers _ _ _ _ _ _ _ diwrnod.
3. Roedd tri brawd hynaf Dafydd wedi dilyn _ _ _ _ i'r rhyfel.
5 i lawr a 12 ar draws. Aeth Dafydd â _ _ _ torth i'w _ _ _ _ _ _.
6 i lawr a 9 ar draws. Un o _ _ __ oedd _ _ _ _ _ _ __ y Philistiad.
8. Aeth Dafydd â chaws i'r _ _ _ __ _ _.

6

C **Roedd ofn Goliath, y cawr, ar bawb ond beth ddywedodd Dafydd wrth Saul pan anfonodd y brenin amdano?**

1

C **Darllenwch adnod 37. Pam roedd Dafydd yn teimlo y gallai wynebu'r Philistiad?** 1

C **Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir neu'n anghywir a rhowch rif yr adnod i brofi'ch ateb.** 4

Lladdodd Dafydd lew a blaidd. ..... adnod .....

Rhoddodd Dafydd arfwisg Saul amdano. ..... adnod .....

Aeth Dafydd â chleddyf Saul gydag ef i gwrdd â Goliath. ..... adnod .....

Dewisodd Dafydd bedair carreg lefn o nant. ..... adnod .....

C **Beth ddywedodd Goliath wrth Dafydd pan welodd ef gyntaf?** 1

C **Wrth ddarllen adnodau 45 – 47, ysgrifennwch un rhan o BOB adnod sy'n dangos bod Dafydd yn ymddiried yn Nuw ac nid yn ei nerth ei hunan.** 3

Adnod 45

Adnod 46

Adnod 47

Felly curodd Dafydd Goliath yn y frwydr a chafodd fuddugoliaeth i'w frenin a'i wlad. Ar groes Calfaria, enillodd Iesu frwydr a oedd hyd yn oed yn bwysicach dros Satan fel y gallwn ninnau gael ein hachub. Os credwn ynddo a'i dderbyn yn Arglwydd ac yn Waredwr i ni, byddwn yn gwybod am ei fuddugoliaeth yn ein bywyd ni dros bechod a Satan. Ar ôl i ni gael ein hachub, mae Satan, fel Goliath, yn ein herio ni, gan ein temtio i wneud pethau drwg. Mae angen i ni fod fel Dafydd yn ymddiried yn nerth Duw i'n helpu ni. Yn y Testament Newydd, mae Paul yn dweud bod bywyd y Cristion fel brwydr ac mae'n dweud bod angen i ni wisgo "holl arfogaeth Duw". (Darllenwch Effesiaid 6: 10-18)



C **Ysgrifennwch Effesiaid 6: 10 i gael gwybod pwy sy'n rhoi nerth i ni ennill y frwydr.** 1

C **Pwy yw ein gelyn ni?** 1

C **Pan mae Paul yn ysgrifennu am 'gleddyf yr Ysbryd', am beth y mae'n sôn?** 1

Enw _____

DARLLENWCH
1 Samuel 18: 1-23
19: 1-18

ADNODAU ALLWEDDOL
Hebreaid 13: 5 a 6

Astudiaeth 3 Bywyd Dafydd – Wynebu Problemau

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Salm 139: 7-12 Salm 140: 1-8 Rhufeiniaid 12: 17-21

Ar ôl buddugoliaeth Dafydd dros Goliath, roedd Saul yn meddwl y byd ohono. Cafodd fynd i gartref y Brenin a daeth yn ffrindiau mawr â'i fab.

C **Enw ffrind Dafydd.** _____ 1

C **Beth wnaeth mab Saul i ddangos bod eu cyfeillgarwch yn mynd i bara?**

_____ 1

Cafodd Dafydd lwyddiant mawr fel milwr a chafodd swydd bwysig gan y Brenin. Ond, un tro, pan ddaeth Dafydd yn ôl o frwydr, dechreuodd gwragedd Israel ei ganmol ef yn fwy na Saul.

C **Beth ddywedon nhw?**

_____ 1

C **Gwnaeth hyn Saul yn flin iawn. Beth oedd arno ef ofn y byddai'n digwydd nesaf?**

_____ 1

Mae balchder a chenfigen yn ddau bechod cas y mae'n rhaid i ni eu hosgoi. Mae'r stori hon yn dangos bod pechodau fel hyn yn arwain at bechodau gwaeth.

_____ 1

C **Beth geisiodd Saul ei wneud i Dafydd wedyn? (Pennod 18: 10 ac 11)**

Ddwywaith yn adnodau 10-16, gwelwn ymadrodd sy'n dangos pam yr oedd Dafydd yn llwyddo ac yn cael ei warchod mewn brwydrau a pham yr oedd ar Saul ei ofn.

_____

Adnodau ac _____ 2

C **Ysgrifennwch yr ymadrodd a rhifau'r adnodau lle mae'n digwydd.**

Roedd Duw yn anrhydeddu ffydd Dafydd ac yn ei gadw'n ddiogel i fod yn frenin ar Israel. Mae pawb sy'n credu yn yr Arglwydd Iesu yn cael sicrwydd y bydd Duw gyda nhw.

C **Ysgrifennwch addewid Duw o'r Adnodau Allweddol a beth y gallwn ni ei**

_____

_____ 2

~~ddweud o ganlyniad i hynny.~~
Roedd yn ymddangos bod Dafydd yn gorfod goresgyn y naill broblem ar ôl y llall.

CHWILAIR

Atebwch y cwestiynau isod a rhoi cylch o'u cwmpas yn y Chwilair i weld beth roedd Saul yn bwriadu ei wneud! (Pennod 18: 17-23). Maent wedi eu cuddio ymlaen, tuag yn ôl, i fyny, i lawr neu'n groeslinol.

1. Dywedodd Saul wrth Dafydd y câi briodi ....., ei ferch hynaf.
2. I dalu nôl am hynny, roedd disgwyl i Dafydd ymladd ..... y brenin.
3. Ond rhoddodd Saul ei ferch hynaf i ..... .
4. Syrthiodd ei ferch arall, ..., mewn cariad â Dafydd.
5. Dywedodd y gweision wrth Dafydd bod Saul yn ..... ohono.
6. Ond, mewn gwirionedd, roedd Saul yn gobeithio y byddai'r Philistiaid yn ei .....

L	A	CH	I	M	R	O	E
DD	Y	R	E	A	R	G	L
A	D	R	I	E	L	CH	W
Y	A	DD	G	Y	D	L	A
B	R	W	Y	D	R	A	U
D	O	A	F	Y	DD	F	

6

C **Gan ddechrau â'r llythyren sydd â chylch o'i chwmpas, symudwch o'r chwith i'r dde lawr y Chwilair a defnyddio'r llythrennau sydd ar ôl i weld pam mai Dafydd oedd yn fuddugol y tro hwn eto.**

1

Wrth i ni ddarllen Pennod 19, gwelwn fod Saul yn DAL i geisio lladd Dafydd! Mae Satan fel Saul – dydi e byth yn rhoi'r gorau iddi! Mae bob amser yn ceisio'n temtio ni gyda phethau fel alcohol, cyffuriau ac anfoesoldeb. Mae'n ceisio gwneud ein bywydau ni yn anodd ac yn anhapus, yn enwedig os ydym yn Gristnogion. Ni thalodd Dafydd ddrwg am ddrwg!

C **O beth ddywedodd Jonathan wrth ei dad o blaid Dafydd (Pennod 19: 4 a 5), disgrifiwch sut y bu Dafydd yn ffyddlon i'r brenin.**

1

Er gwaethaf addewid Saul i Jonathan (adnod 6), mae'n ceisio trywanu Dafydd â'i waywffon.

C **Dywedwch yn eich geiriau eich hunan sut yr helpodd gwraig Dafydd ef i ddianc.**

3

Efallai nad ydi'n bywydau ni dan fygythiad trwy'r amser fel yr oedd Dafydd ond mae pawb ohonom yn wynebu anawsterau a phroblemau. Roedd ffydd Dafydd yn Nuw yn ei helpu i ddal ati. Os byddwn ni'n ffrindiau â Iesu, bydd ei gwmni ef yn ein helpu i wynebu problemau bywyd.

Enw _____

DARLLENWCH
1 Samuel 20: 12-17 a 42
2 Samuel 9: 1-13

ADNOD
ALLWEDDOL
2 Samuel 9: 1

Astudiaeth 4 Bywyd Dafydd – Gofalu am Eraill

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

2 Samuel 4:4 Effesiaid 2: 1-10

Roedd Saul yn dal i geisio lladd Dafydd, fel y gwelwch wrth ddarllen 1 Samuel 20.
Gan fod Saul mor flin ac mor awyddus i ladd Dafydd, penderfynodd Jonathan rybuddio Dafydd.
Cyn iddynt wahanu, gwnaeth Jonathan i Dafydd addo gwneud rhywbeth.

C **Darllenwch 1 Samuel 20: 14 a 15 ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth oedd yr addewid.**

1

O'r amser hwn hyd nes y daeth Dafydd yn frenin, bu Saul yn chwilio amdano. Er hynny, penderfynodd Dafydd arbed bywyd Saul ddwy waith pan allai fod wedi'i ladd yn hawdd. (1 Samuel 24 a 26). Yna, un diwrnod, clywodd Dafydd y newyddion trist bod Saul a Jonathan wedi'u lladd mewn brwydr. Wedyn, cafodd Dafydd ei wneud yn frenin, dros Jwda i ddechrau (2 Samuel 2), ac wedyn dros Israel gyfan. Bu'n frenin am gyfanswm o 40 mlynedd a 6 mis. Mae'r ail Ddarlleniad o'r Beibl yn sôn am rywbeth a wnaeth Dafydd pan oedd yn frenin. Un diwrnod, roedd yn meddwl am yr addewid a wnaeth i Jonathan rai blynyddoedd cyn hynny.



C **Beth oedd Dafydd eisiau ei wneud?**

1

C **Rhowch linell trwy'r geiriau ANGHYWIR i ddangos beth ddigwyddodd nesaf.**

Soniodd Dafydd am ei ddymuniad wrth SIMRI / SIBA / SADOC a oedd yn WAS / FILWR / GANWR i deulu Saul. Clywodd fod gan Jonathan FAB / FERCH a oedd yn DDALL / WAHANGLWYFUS / GLOFF. Roedd yn byw yn MACHIR / LO-DEBAR / AMMIEL.

5

C **Darllenwch 2 Samuel 4:4 ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth a ddigwyddodd i fab Jonathan pan oedd yn bump oed.**

2

C **Rhowch ✓ neu ✘ i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir neu'n anghywir:-**

Meffiboseth oedd enw mab Jonathan. .....

Pan gyrhaeddodd, safodd ar ei draed o flaen y brenin. .....

Roedd ofn Dafydd arno. .....

3

C **Darllenwch adnod 7 ac ysgrifennu tri pheth a ddywedodd Dafydd wrth fab Jonathan.**

1

2

3

3

C **Atebwch y cwestiynau isod a defnyddiwch y llythrennau a nodir yn y cromfachau i wneud GAIR ALLWEDDOL.**

1. Beth oedd Saul i Siba? _ _ _ _ _ _ (llythyren 4)
2. Wrth siarad â Dafydd, dywedodd Meffiboseth ei fod yn _ _ _ _ _ _ (llythyren 1)
3. Roedd Meffiboseth yn cael ei fwyd wrth _ _ _ __ y brenin. (llythyren 3)
4. Beth oedd enw mab Meffiboseth? _ _ __ _ (llythyren 4)

4

Y GAIR ALLWEDDOL yw

1

Mae'r Gair Allweddol yn golygu CAREDIGRWYDD a ddangosir at rywun nad yw'n ei haeddu er mwyn rhywun arall. Dangosodd Dafydd garedigrwydd fel hyn at Meffiboseth gan ei fod yn meddwl y byd o'i dad, Jonathan. Mae hyn yn debyg i'r caredigrwydd y mae Duw yn ei ddangos atom ni, trwy Iesu Grist. Rydyn ni yn ffaeledig, fel Meffiboseth, oherwydd ein pechod. Ond, os gwnawn ni ymddiried yn Iesu, bydd Duw yn maddau i ni, yn ein gwneud yn rhan o'i deulu ac yn ein bendithio'n helaeth. Nid am ein bod yn ei haeddu y mae'n gwneud hyn ond oherwydd beth wnaeth Iesu ar y groes. Wrth feddwl am Dafydd, gwelwn fod ei galon yn iawn a bod ganddo ffydd yn Nuw. Roedd yn ymddiried yn Nuw bob amser, pan oedd popeth yn mynd yn dda a phan oedd yn wynebu trafferthion, ac roedd yn dangos cariad at bobl eraill.
Dylem ninnau hefyd geisio adnabod Iesu a'i wasanaethu!



cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120